STATUTORY INSTRUMENTS

2015 Rhif 1536

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015

Gwnaed - - - -	*15fed Gorffennaf 2015*
Yn dod i rym - -	*1af Medi 2015*

Yn Llys Palas Buckingham y 15fed dydd o Orffennaf 2015

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 16(1) a (5) o'r Ddeddf honno, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 a daw i rym ar 1af Medi 2015.

Dynodi swyddi sy'n anghymhwyso

2. Mae'r swyddi a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu dynodi'n swyddi sy'n anghymhwyso deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010

3. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010(**2**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 2006 p. 32 .
(**2**) O.S. 2010/2969.

Richard Tilbrook
Clerc y Cyfrin Gyngor

ATODLEN Erthygl 2

Swyddi sy'n anghymhwyso'r deiliaid rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Amgueddfa Genedlaethol Cymru	Y Bwrdd Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru
Yr Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau	Yr Archwilydd Achosion Annibynnol
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Yr holl aelodau
Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd	Yr holl aelodau
Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol	Yr holl aelodau
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Yr holl aelodau
Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain	Yr holl aelodau
Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu yn gyfan gwbl mewn cysylltiad â Chymru	Yr holl aelodau nad ydynt hefyd yn gyflogeion
Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol	Yr holl aelodau
Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru	Yr holl aelodau
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Yr holl aelodau
Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan	Yr holl aelodau
Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol	Yr holl aelodau
Bwrdd Canolwyr Meddygol	Yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru(**3**)
Bwrdd Cynghori ar Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru	Yr holl aelodau
Y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd
Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol	Yr holl aelodau
Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal yng Nghymru	Yr holl aelodau nad ydynt hefyd yn gyflogeion
Y Bwrdd Strategaeth Technoleg a adwaenir fel Innovate UK	Yr holl aelodau a'r Prif Weithredwr

(**3**) *Gweler* paragraff 3 o Atodiad 2 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072 (Cy. 110)) a pharagraff 3 o Atodlen 5 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1073 (Cy. 111)).

Y Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(**4**)	Yr holl aelodau
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	Y Comisiynwyr
Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	Yr holl aelodau
Y Comisiwn Etholiadol	Yr holl aelodau a staff
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Y Prif Weithredwr a'r holl aelodau
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru	Y Comisiynwyr
Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau	Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, neu Gyfarwyddwr neu Gomisiynydd y Comisiwn hwnnw a benodwyd gan Brif Weinidog Cymru
Comisiwn y Gwasanaeth Sifil	Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil a'r holl Gomisiynwyr
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru	
Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel y'i sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, ac unrhyw Ddirprwy a benodir gan y Comisiynydd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno	
Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus	
Comisiynydd Plant Cymru	Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd
Comisiynydd y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ac aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg
Y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth	
Corfforaeth Deledu Channel Four	Yr holl aelodau
Corfforaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gynilion Cyflogaeth	Yr holl Aelod-Ymddiriedolwyr
Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru neu unrhyw is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Cyllid Cymru	Yr holl Gyfarwyddwr
Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur	Yr holl aelodau

(**4**) 2007 p. 18.